CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# *Adroddiad Comisiynwyr Cyngor Sir Ynys Môn i'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau*

COMISIYNWYR YNYS MÔN
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
LLANGEFNI
YNYS MÔN/ANGLESEY
LL77 7TW

Ffôn / Tel: (01248)752100  Ffacs / Fax: (01248)

## Adroddiad Chwarter Un
## (Ebrill – Mehefin 2011)

17 Gorffennaf 2011

## *Rhagair*

Ar 18 Mawrth 2011, penododd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol Gomisiynwyr i gymryd cyfrifoldeb dros swyddogaethau gwneud penderfyniadau gweithredol Cyngor Sir Ynys Môn.

Yn unol â'u cylch gorchwyl a gofynion y Cyfarwyddyd gan y Gweinidog, mae gofyn i'r Comisiynwyr roi diweddariadau rheolaidd i'r Gweinidog ar y cynnydd a wnaethpwyd i gyflenwi'r gwelliannau angenrheidiol a fyddai'n ei alluogi i ystyried dod â'r ymyrraeth ffurfiol yn Ynys Môn i ben.

Yr adroddiad hwn yw Adroddiad Chwarter Un y Comisiynwyr, sy'n cynnwys y cyfnod o Ebrill i Fehefin 2011.

Alex Aldridge (Comisiynydd)

Byron Davies (Comisiynydd)

Margaret Foster (Comisiynydd)

Mick Giannasi (Comisiynydd)

Gareth Jones (Comisiynydd)

## *Comisiynwyr Ynys Môn*



**Cynghorydd Alex Aldridge OBE** - mae'n aelod o Gyngor Sir Fflint ers 1995 ac yn cynrychioli Ward Coleshill y Fflint. Cyn hynny roedd ar Gyngor Sir Clwyd ers 1991 a hefyd mae'n aelod o Gyngor Tref y Fflint. Yn ogystal bu'n Arweinydd Cyngor Sir Fflint a phenodwyd ef, yn 2004, yn Arweinydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA). Yn sgil ei waith fel Arweinydd y WLGA gall dynnu ar ei brofiad helaeth o weithio gyda phartneriaid o'r sectorau gwirfoddol a phreifat, a chyda Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Llywodraeth yn San Steffan. Arferai weithio i gwmni Corus yn Shotton, a hefyd bu'n gadeirydd Awdurdod Tân Gogledd Cymru.



**Byron Davies OBE** – mae ganddo brofiad enfawr mewn llywodraeth leol ac wedi dal swyddi Prif Weithredwr Cyngor Sir De Morgannwg a Phrif Weithredwr Cyngor Caerdydd dros gyfnod o 20 mlynedd. Cyn mynd ati i sefydlu ei gwmni ymgynghorol ei hun yng Nghaerdydd bu'n Gadeirydd Bwrdd Gwasanaethau Lleol Caerdydd ac yn Ysgrifennydd Cymdeithas Awdurdodau Lleol ac Uwch Reolwyr yng Nghymru. Hefyd bu'n Llywydd Cymdeithas Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol y Deyrnas Unedig (SOLACE) ac yn Llywydd Ffederasiwn Ewrop o Brif Weithredwyr Awdurdodau Lleol (UDiTE). Mae hefyd yn llywodraethwr Sefydliad Prifysgol Cymru Caerdydd.



**Margaret Foster OBE** – ganwyd hi ym Mhenarth ac mae'n byw ar gyrion Caerffili gyda'i gwr. Ymunodd Margaret â'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru yn 1974 gan arwain yn y broses o sefydlu Ymddiriedolaeth GIG Dwyrain Morgannwg yn 1994 a chael ei phenodi fel ei Brif Weithredwr cyntaf. Rhoes arweiniad wrth gomisiynu nifer o brosiectau Iechyd mawr yng Nghymoedd y De gan sefydlu cyswllt gweithio clos gyda sefydliadau partneriaethol gyda'r nod o wella gwasanaethau. Yn Ebrill 2009 penodwyd Margaret yn Brif Weithredwr Bwrdd Iechyd Cwm Taf ar ôl cyfuno Ymddiriedolaeth GIG Cwm Taf gyda Byrddau Iechyd Lleol Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful; yn ddiweddar ymddeolodd o'r swydd honno.



**Mick Giannasi** – ymddeolodd o'i swydd fel Prif Gwnstabl Heddlu Gwent ddiwedd Mawrth 2011, ar ôl rhoddi rhagor na 31 blwyddyn o wasanaeth i'r heddlu. Yn 2005 yr ymunodd â Heddlu Gwent fel Dirprwy Brif Gwnstabl a chyn hynny gwasanaethodd yn Swydd Stafford ac ar Lannau Merswy lle bu â chyfrifoldeb yng nghyswllt troseddau difrifol a chynlluniedig, am gasglu gwybodaeth ac am weithgaredd arbenigol. Gwnaeth gyfraniad o bwys i waith yr heddlu yng Nghymru fel Cadeirydd Rhanbarth Cymru o Gymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu ac fel Cadeirydd Bwrdd Rhaglen Gydweithredol Cymru gyfan.



**Gareth Jones** – ganwyd ef ym Mlaenau Ffestiniog yn 1939 ac mae'n byw yn Llandudno. Bu'n athro ac yn ymgynghorydd addysg ar ôl graddio mewn daearyddiaeth o Brifysgol Cymru Abertawe; am flynyddoedd ef oedd prifathro'r ysgol uwchradd fwyaf yn Llandudno, sef Ysgol John Bright. Cyn Mawrth 2011 Gareth Jones oedd Aelod Cynulliad Plaid Cymru dros Aberconwy ac ef oedd Cadeirydd y Pwyllgor Menter a Dysgu. Bu'n Arweinydd i Grŵp Plaid Cymru ac yn Ddirprwy Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae Gareth wedi dal sawl swydd y tu mewn i Blaid Cymru. Ef oedd y Cysgod Weinidog dros Addysg, a Chadeirydd y Pwyllgor Addysg. Ymhlith ei ddiddordebau gellir enwi cyfiawnder cymdeithasol, yr iaith Gymraeg ac Addysg Gymraeg.

## Tabl Cynnwys


Pwrpas yr Adroddiad ........................ 5

Fformat yr Adroddiad ........................ 5

Cefndir..... ........................ 6

Rôl y Comisiynwyr ........................6

Atebolrwydd y Comisiynwyr........................7

Pryderon Hanesyddol ........................7

Pryderon Llywodraeth Cymru ........................8

Asesiad y Comisiynwyr ........................9

Rhaglen Waith Strategol y Comisiynwyr ........................ 11

Ymgysylltu cychwynnol ........................12

Portffolios y Comisiynwyr ........................13

Cynnydd cynnar........................14

Crynodeb o gynnydd cynnar ........................15

Blaenoriaethau brys ........................16

Crynodeb o flaenoriaethau brys........................18

Cynlluniau tymor hirach ........................18

Perthynas gydag Aelodau Etholedig........................19

Adroddiad Chwarter 2 ........................21

Casgliadau........................21

Crynodeb o argymhellion ........................22

## *Pwrpas yr Adroddiad*

1. Hwn yw'r adroddiad ffurfiol cyntaf gan Gomisiynwyr Ynys Môn i sylw'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau.

2. Mae'n ymwneud â Chwarter Un, sef y tri mis o Ebrill i Fehefin 2011. Ynddo cyflwynir crynodeb o gynnydd y Comisiynwyr yn ystod eu tri mis cyntaf o waith a nodir, yn fras, y materion allweddol y bwriadant roddi sylw iddynt wrth gydio yn eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau dros y flwyddyn nesaf.

3. Yn benodol dywed yr adroddiad:-

   - Sut y mae'r Comisiynwyr wedi trefnu i gyflawni eu swyddogaethau;
   - Beth yw eu hasesiad o'r prif heriau sy'n eu hwynebu;
   - Beth fu ffocws eu gwaith dros eu tri mis cyntaf o waith;
   - Am y cynnydd cynnar yn ystod y cyfnod hwnnw;
   - Beth yw'r materion a fydd yn cael eu sylw yn y tymor byr a hir (h.y. erbyn Medi 2011);
   - Beth yw'r blaenoriaethau wrth symud ymlaen tuag at fis Mai 2012 a'r tu draw;
   - Am rai o'r risgiau y mae'n rhaid iddynt eu rheoli;
   - Ym mha fodd y maent yn gweithio gyda'r Aelodau Etholedig;
   - Am yr wyth argymhelliad a luniwyd gyda golwg ar gael cefnogaeth Gweinidogol i ddull y Comisiynwyr o weithio.

4. Unwaith y bydd y Gweinidog wedi cytuno ar yr adroddiad bydd wedyn yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor a'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor fel bod modd i'r cyhoedd, aelodau o'r staff ac i gydranddeiliaid eraill ei ddarllen.

## *Fformat yr Adroddiad*

5. Er bod cynnydd pendant wedi digwydd, mae'r Comisiynwyr yn dal i fod yn y cyfnod paratoi – sefydlu cysylltiadau, ystyried y sefyllfa, asesu beth sydd angen ei wneud a datblygu cynlluniau manwl a fydd yn gymorth i sicrhau adferiad cynaliadwy yn y tymor hir. Gyda hyn mewn golwg cyflwynir yr adroddiad cyntaf hwn ar ffurf naratif. Er bod ynddo nifer o sylwadau cychwynnol, ni cheir barn derfynol na chasgliadau'n seiliedig ar dystiolaeth. Ond y mae yn yr adroddiad gyfres o argymhellion a luniwyd gyda golwg ar gael cefnogaeth gyffredinol y Gweinidog iddynt ac i'r cyfeiriad y mae'r Comisiynwyr yn mynd iddo'n gyffredinol.

6. Ar hyn o bryd mae gwaith yn cael ei wneud gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA), Swyddfa Archwilio Cymru (WAO) a Llywodraeth Cymru gyda golwg ar gael fformat mwy strwythuredig – un yn seiliedig ar ddeilliannau – i adroddiadau'r dyfodol. Bellach cytunwyd yn fras ar fethodoleg addas ac mae'r camau angenrheidiol yn cael eu cymryd i greu'r fframwaith asesu a hefyd y cynllun datblygu tymor hir fydd yn sylfaen i'r fframwaith hwnnw.

7. Unwaith y cytunir ar fethodoleg asesu a'i gael yn ei lle, yna bydd adroddiadau'r dyfodol yn seiliedig ar gyfuniad o naratif cefnogol ac asesiad gwrthrychol yn seiliedig ar risg - asesiad yn erbyn amserlenni a chyflenwadwyon y cytunwyd arnynt ymlaen llaw. Bydd hyn yn darparu fframwaith cryfach fel bod modd i'r Gweinidog asesu'r cynnydd a wnaed, a phenderfynu yn y pen draw a yw'n briodol ai peidio dwyn yr ymyrraeth i ben.

## *Cefndir*

8. Ers blynyddoedd bu perfformiad Cyngor Sir Ynys Môn yn destun pryder. Dangosodd cyfres o arolygon ac o archwiliadau allanol anffafriol bod sawl gwendid yn y Cyngor, ac yn arbennig yng nghyswllt llywodraethu corfforaethol ac effeithiolrwydd y broses ddemocrataidd leol. Daeth hyn oll i'r amlwg yn y cyfryngau, gan arwain at anfodlonrwydd y cyhoedd gyda'r Cyngor a hefyd at golli ffydd yn y broses ddemocrataidd.

9. Ym mis Awst 2008, yn sgil mwy a mwy o bryderon oherwydd y diffyg cynnydd wrth roddi sylw i'r gwendidau hyn, cafwyd ymyrraeth gan y Gweinidog pan benododd Fwrdd Ymyrraeth a chyflwyno, trwy orfodaeth, Gyfarwyddwr Rheoli Interim.

10. Fe gafwyd peth llwyddiant yn ystod cyfnod cychwynnol yr ymyrraeth, ond gan fod cymaint o ansefydlogrwydd yn parhau yn y broses wleidyddol, a hwnnw'n llesteirio adferiad y Cyngor, cyhoeddwyd ym Mawrth 2011 adroddiad archwilio anffafriol arall ar lywodraethu corfforaethol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

11. Oherwydd yr adroddiad hwnnw, cafwyd rhagor o ymyrraeth gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau ar 16 Mawrth, 2011 pan ddefnyddiodd ei bwerau dan adran 29 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 i ymyrryd mwy ym materion Cyngor Sir Ynys Môn. Arweiniodd hyn at benodi Comisiynwyr, yr ymyrraeth gyntaf ar raddfa o'r fath hon yn y Deyrnas Unedig.

12. Mae Cyfarwyddyd y Gweinidog yn caniatáu ymyrryd am gyfnod hyd at bedwar mis ar ddeg. Gall y Gweinidogion ddiddymu neu ddiwygio'r Cyfarwyddyd unrhyw bryd, a gall y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau a'i swyddogion adolygu ei effeithiolrwydd bob pedwar mis. Cyflwynir yr arolygon hyn i bwrpas asesu cydymffurfiad yn erbyn yr amryfal argymhellion gwella fel bod modd i'r Gweinidog ystyried a ddylid dychwelyd unrhyw swyddogaeth ai peidio i Aelodau Etholedig y Cyngor.

13. Bydd y Gweinidog yn ystyried unrhyw argymhelliad a wna'r Comisiynwyr yng nghyswllt lleihau neu ddileu'r ymyrraeth ai peidio, a pha bryd, mewn ymateb i unrhyw dystiolaeth o welliant.

## *Rôl y Comisiynwyr*

14. Mae'r cylch gorchwyl y penderfynodd Llywodraeth Cymru arno yn sefydlu un flaenoriaeth hollbwysig i'r Comisiynwyr, sef sicrhau y bydd yr awdurdod yn cydymffurfio â Rhan 1 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) trwy gyflwyno trefniadau i gael gwelliant parhaus yn ei ffordd o weithredu ar ei swyddogaethau.

15. Gyda phethau eraill, mae hyn yn golygu y bydd raid i'r Comisiynwyr weithredu ar yr holl swyddogaethau hynny a dynnwyd oddi ar y Cyngor dan Gyfarwyddyd y Gweinidog, ac eithrio'r rheini y mae'r Gweinidogion eu hunain yn eu gweithredu (e.e. diwygio'r cyfansoddiad a phenodi swyddogion statudol). Mewn gwirionedd golyga hyn y bydd raid i'r Comisiynwyr weithredu fel un corff fel petai'n Bwyllgor Gwaith.

16. Mae swyddogaethau gweithredol y Cyngor yn cael eu diffinio'n seiliedig ar eithriadau. Bydd y materion mwyaf sylweddol a thymor hir (pethau megis mabwysiadu'r gyllideb) yn parhau i fod yn faterion y bydd y Cyngor llawn yn penderfynu arnynt. Hefyd, dan gyfraith gwlad, bydd swyddogaethau lled-farnwrol megis cynllunio a swyddogaethau rheoliadol a thrwyddedu yn parhau i fod yn bethau i bwyllgorau perthnasol y Cyngor benderfynu arnynt.

17. Bellach mae gweddill y swyddogaethau, sef yn eu hanfod y swyddogaethau gwneud penderfyniadau a pholisi strategol, (yr oedd pwyllgor gwaith y Cyngor yn gweithredu arnynt gynt) yn rhai y bydd y Comisiynwyr yn unig yn gweithredu arnynt. Ond mae'r swyddogaethau gweithredol a'r rhai sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau o ddydd i ddydd yn parhau i fod yn rhai a ddirprwyir i swyddogion.

18. Er bod y Cyngor yn dal i fod â chyfrifoldeb am nifer o swyddogaethau allweddol, mae yma ddiogelwch yn erbyn gwneud penderfyniadau sy'n creu rhwystr neu rai sy'n wrthnysig eu natur. Rhoddwyd i'r Comisiynwyr, gan Weinidogion Cymru, bwerau wrth gefn pryd bynnag y bydd y Cyngor neu ei bwyllgorau yn anwybyddu cyngor swyddogion statudol (h.y. y Prif Weithredwr Interim, y swyddog monitro a'r swyddog adran 151)

19. Mae'r swyddogaeth a ddiffiniwyd i'r Comisiynwyr wedi cael cyhoeddusrwydd y tu mewn i'r Cyngor, a hefyd trwy'r cyfryngau a thrwy sawl sianel arall (e.e. gwefan, papurau newydd, cyfarfodydd) i'w dwyn i sylw dinasyddion Ynys Môn. Mae lefel dda o ddealltwriaeth ymhlith Cynghorwyr a swyddogion, a bellach mae trefniadau diwygiedig i redeg busnes y Cyngor o ddydd i ddydd yn eu lle ac yn gweithio'n dda.

## *Atebolrwydd y Comisiynwyr*

20. Wrth iddynt weithredu ar y swyddogaethau a dynnwyd oddi ar y Cynghorwyr a'u trosglwyddo iddynt gan y Gweinidog, mae'r Comisiynwyr yn atebol i'r Cyngor llawn ac i'w bwyllgorau sgriwtini ac archwilio, fel yr arferai'r Pwyllgor Gwaith fod. Mae'r Comisiynwyr â'r rhyddid i benderfynu rhyngddynt sut y dylai'r atebolrwydd weithio'n ymarferol, e.e. pa un ohonynt ddylai ymddangos gerbron pwyllgor sgriwtini ymhob achos unigol. Ond fe ddylai'r holl Gomisiynwyr fynychu cyfarfodydd y Cyngor llawn.

21. Ar wahân i'r atebolrwydd ffurfiol hwn, disgwylir i'r Comisiynwyr ymgynghori ag aelodau'r Cyngor yn rheolaidd i sicrhau y bydd eu penderfyniadau'n rhoddi sylw teg i'r holl sylwadau perthnasol y tu mewn i'r Cyngor. Yn ogystal fe ddylent sicrhau eu bod yn cyfathrebu'n agored ac yn effeithiol gyda phobl Ynys Môn, ynghylch y penderfyniadau a wnânt ac, yn fwy cyffredinol, yng nghyswllt y cynnydd a wna'r Cyngor i sicrhau adferiad.

22. Nid yw'r Comisiynwyr yn atebol mewn modd ffurfiol i'r Gweinidog am eu penderfyniadau ac nid oes gan y Gweinidog bŵer i fynd yn groes iddynt. Fodd bynnag, gofynnir iddynt gyflwyno i'r Gweinidog adroddiadau rheolaidd ar eu gwaith ac ar gynnydd y Cyngor. Yn ogystal bydd gofyn iddynt gyfrannu tuag at arolygon cyfnodol yng nghyswllt ymyrraeth y Gweinidog fel y mae hyn yn cael ei nodi yn y cyfarwyddyd.

## *Pryderon Hanesyddol*

23. I ddeall yn iawn beth yw'r her sy'n wynebu'r Comisiynwyr yn y broses o hyrwyddo adferiad, mae o gymorth crynhoi'r Pryderon Hanesyddol a arweiniodd at yr ymyrraeth bresennol.

24. Ers blynyddoedd bu Cyngor Sir Ynys Môn yn destun sawl gwerthusiad statudol ac adroddiadau rheolaidd gan archwilwyr allanol a chyrff arolygu. Yn benodol mae hyn yn cynnwys archwiliadau a gwerthusiadau gan Swyddfa Archwilio Cymru (WAO), Pricewaterhouse Cooper LLP fel archwilwyr allanol penodedig, Estyn ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (CSSIW).

25. Ategwyd yr asesiadau statudol a rheoliadol gan sawl arolwg cymheiriaid ar faterion penodol, ond yn ymwneud yn bennaf â threfniadau ar gyfer gwasanaethau cefnogol – ac yn cynnwys arolygon ar swyddogaethau cyllid, Adnoddau Dynol a Thechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu. Yn lleol y cafodd yr arolygon hyn eu comisiynu, fel arfer fel rhan o'r rhaglen cefnogi llywodraeth leol a ddarperir gan y WLGA.

26. Rhoddodd y Bwrdd Adfer sylw i lywodraethu, i'r trefniadau ar gyfer gwasanaethau cefnogol a hefyd mae'r Cyngor ei hun wedi rhoddi persbectif ychwanegol trwy ei waith archwilio mewnol ei hun a thrwy adroddiadau ei swyddogion.

27. Mae'r asesiadau, gyda'i gilydd, yn gyson wedi dwyn sylw at nifer o wendidau cyffredin gan ddangos bod angen:-

- Gwella'r ymgysylltiad gyda dinasyddion a chyda'r gymuned;
- Datblygu blaenoriaethau strategol a mwy o waith mesur yn seiliedig ar ddeilliannau;
- Cyflwyno proses gadarn i reoli risg strategol;
- Gwella gwaith rheoli perfformiad strategol; a
- Gwella capasiti, ansawdd a gwaith rheoli gwasanaethau cefnogol corfforaethol.

28. Pan fo cyrff megis Swyddfa Archwilio Cymru wedi bod yn cyflwyno adroddiadau rheolaidd fel rhan o'u cylch gorchwyl, mae argymhellion yn rhinwedd eu natur wedi tyfu'n bethau ailadroddus a phryderon ynddynt am allu'r Cyngor i ymateb i argymhellion adroddiadau blaenorol.

29. Nid oedd yr archwiliadau hynny a asesodd y gwasanaethau rheng flaen yn rhoddi persbectif manwl, yn gyffredinol, ar lywodraethu corfforaethol nac ar y trefniadau ar gyfer gwasanaethau cefnogol sydd wrth wraidd y gwaith o ddarparu'r gwasanaethau hynny. Ond pan oeddent yn gwneud hynny, roedd cysondeb bras gyda'r casgliadau uchod.

30. O'r herwydd daeth y materion hyn yn garreg sylfaen i'r Blaengynllun Gwaith y mae'r Comisiynwyr yn gweithio arno a byddant yn datblygu'n rhan o'r cynllun gwaith tymor hir – cynllun y bydd y Comisiynwyr yn seilio arno eu sylwadau yn Adroddiadau Chwarterol y dyfodol.

## *Pryderon Llywodraeth Cymru*

31. Dywed cyfarwyddyd y Gweinidog y bydd gofyn i'r Comisiynwyr, wrth fwrw ymlaen gyda'r gwaith, roddi sylw arbennig i'r gwendidau sylfaenol mewn llywodraethu corfforaethol a nodwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Yn gryno'r rheini yw:-

- y berthynas rhwng Aelodau a grwpiau gwleidyddol;
- y berthynas rhwng Aelodau a swyddogion;
- safonau ymddygiad yr Aelodau;
- effeithiolrwydd Pwyllgor Safonau'r Cyngor;
- sgriwtini a'i allu i fynd ati'n effeithiol i herio a dylanwadu ar benderfyniadau a pholisïau;
- trefn, cydlyniad ac effeithiolrwydd uwch dîm rheoli'r Cyngor;
- y capasiti i wneud a gweithredu yng nghyswllt cynllunio strategol a rheoli perfformiad ar draws holl swyddogaethau'r Cyngor ac mewn ffyrdd sy'n ymgysylltu'n llawn gyda dinasyddion Ynys Môn a chan adlewyrchu eu sylwadau a'u blaenoriaethau nhw.

32. Cafodd y materion hyn hefyd sylw'r Comisiynwyr yn eu Blaengynllun Gwaith a byddant yn rhan o'u cynllun gwaith dros dymor hir wrth symud ymlaen.

## *Asesiad y Comisiynwyr*

33. Dros y tri mis diwethaf, a chan ofalu bob amser i beidio dyblygu gwaith a oedd wedi'i wneud yn y gorffennol gan gyrff eraill, mae'r Comisiynwyr wedi achub ar y cyfle i edrych yn ofalus ar y sefyllfa bresennol a mynd ati, gyda chymorth y WLGA, i gynnal asesiad lefel uchel eu hunain yng nghyswllt beth sydd angen ei wneud i hybu'r adferiad a sicrhau cynaladwyedd yn y tymor hir.

34. Er bod cynnydd pendant wedi digwydd yng nghyfnod cychwynnol yr ymyrraeth , barn y Comisiynwyr yw bod yr hen broblemau a nodwyd yn arolygon y gorffennol, ac yn arbennig yng nghyswllt capasiti corfforaethol, gallu a hyfedredd, at ei gilydd yn dal i fod yn faterion sydd angen sylw.

35. Ond beth sy'n achosi mwy o bryder, mewn rhai meysydd, er enghraifft y swyddogaeth gyllid, yw bod y sefyllfa wedi gwaethygu yn hytrach na gwella. Mae methu am yr ail flwyddyn yn olynol i baratoi datganiad cyfrifon blynyddol erbyn y dyddiad cau statudol yn arwydd nad yw'r problemau sylfaenol a nodwyd yn archwiliadau ac arolygon y gorffennol byth wedi cael sylw.

36. O edrych ar y ffordd y bu i'r Cyngor drin a rheoli'r argymhellion a oedd yn deillio o adroddiadau rheoleiddiol a rhai gan gymheiriaid, gwelir bod rhywfaint o drefniadau yn eu lle i dracio argymhellion o adroddiadau archwilio mewnol ond ni chafwyd dull corfforaethol cynhwysfawr o gymathu'r rhychwant o argymhellion o adroddiadau allanol, o ddadansoddi eu heffaith a sicrhau eu bod yn rhan o gynllun gweithredu corfforaethol a strategol sy'n cael ei fonitro dan drefniadau tracio cadarn. Y mae'r diffyg gwaith monitro a rheoli yn berthnasol hefyd i reoli gwaith datblygu mewnol a gweithredu ar gytundebau deilliannol.

37. O'r herwydd, mae peth ansicrwydd yn parhau ynghylch beth yw statws a pherthnasedd cyfoes rhai o'r argymhellion ac ni chyflawnwyd cynnydd clir yn erbyn rhaglenni blaenoriaeth pwysig. Mae'r swyddogion yn parhau i sôn am brinder adnoddau fel rheswm am beidio ag ymateb i feirniadaeth yn argymhellion yr adroddiadau, ac nid oes perchnogaeth strwythuredig, gorfforaethol na rheolaethol yng nghyswllt y materion dan sylw.

38. Mae'r Comisiynwyr wedi nodi bod hybu perchnogaeth fewnol a chreu'r momentwm ar gyfer newid yn faterion o bwys, ac am y rheswm hwn maent, fel un o'u blaenoriaethau cynnar, wedi rhoi cychwyn ar waith gan y WLGA i:-

    - adnabod yr argymhellion hynny sy'n dal i fod yn berthnasol ac yn gyfoes;
    - adnabod a gweithredu ar argymhellion ymarferol (manteision cyflym) a fydd yn meithrin hyder;
    - sefydlu momentwm a hybu perchnogaeth yn lleol;
    - ystyried a myfyrio ynghylch y materion strategol a sylfaenol fydd yn hwyluso gwell llywodraethu corfforaethol ac yn gwella cydlyniad yn y tymor hir;
    - nodi cyfleoedd yng nghyswllt rhannu gwasanaethau a gweithio ar y cyd mewn ymateb i fylchau mewn capasiti a gallu;
    - ystyried cyfleoedd i ddiwygio dulliau darparu gwasanaethau a diwygio strwythurau trefniadol;
    - sicrhau y bydd grwpiau tasg a gorffen yn cael eu defnyddio'n effeithiol;
    - ddarparu dulliau effeithiol o gyflwyno adroddiadau i'r Comisiynwyr ac i'r Gweinidogion.

    Eisoes mae'r gwaith hwn wedi bwydo i mewn i Flaenraglen Waith y Comisiynwyr am y gweddill o 2011/12, a bydd yn rhan sylweddol o'r broses o ddatblygu cynllun gwaith tymor hir a baratoir erbyn diwedd Medi. At hyn mae'r Prif Weithredwr wedi rhoi cychwyn ar gynllun dan arweiniad

corfforaethol i ddadansoddi'r argymhellion hyn, a bellach mae trefniadau cryfach yn eu lle o ran llywodraethu a monitro.

39. Mae'n ymddangos bod y broses o ymyrryd wedi esgor ar ddull gweithio sy'n canolbwyntio ar y dasg lle mae ticio'r argymhellion a'r camau, yn aml, yn cael ei ystyried yn bwysicach na'r deilliannau. Yn sgil hyn fe gafwyd tueddiad i weithio mewn seilos, a chyflawni yn y tymor byr yn hytrach na phawb yn gweithio gyda'i gilydd i ddatrys materion sylfaenol a thymor hir – rhai sy'n rhwystr i gynnydd cynaliadwy yn y tymor hir.

40. Tra bo profiadau cychwynnol y Comisiynwyr yn cadarnhau, i raddau helaeth, gasgliadau arolygon y gorffennol, mae'r olwg fanwl a threiddgar a gawsant ar ddull y Cyngor o weithio yn ddyfnach, ac o bosib yn fwy soffistigedig, na phrofiad y cyrff allanol. Ond nid yw hynny'n annisgwyl o gofio bod y Comisiynwyr wedi'u sefydlu yn y sefydliad, gan weithio ochr yn ochr â swyddogion ac Aelodau Etholedig o ddydd i ddydd. Sefydlwyd cysylltiadau gweithio effeithiol gan arwain at drafodaeth fwy agored a thryloyw, a chreu gwell cyfle i adnabod rhai o'r achosion gwaelodol yn ogystal â symptomau.

41. Tueddiad adroddiadau'r gorffennol oedd beio'r broses ddemocrataidd a'r Aelodau Etholedig yn bennaf am fethiannau'r Cyngor. A heb os mae hynny'n wir; mae angen dirfawr am arweinyddiaeth ddemocrataidd effeithiol ac i gael hynny bydd raid datrys rhai problemau sylfaenol. Ond hefyd cred y Comisiynwyr bod bylchau cyffelyb yng nghapasiti a gallu rhai swyddogion, a bydd raid ymdrin â hynny os yw cynnydd gwirioneddol a chynaliadwy i gael ei gyflawni.

42. Efallai'n wir fod y problemau hyn yn symbiotig ac yn ddiau maent yn gysylltiedig, os nad wedi eu hachosi, gan yr amgylchedd gwleidyddol anodd y mae'r Cyngor wedi gweithredu ynddo ers nifer o flynyddoedd. Nid oedd arloesi a chreadigrwydd yn cael eu hannog, ac roedd swyddogion yn treulio amser ac ymdrech anghymesur yn delio â gwrthdaro mewnol ac ymddygiad amhriodol gan aelodau. Er nad yw hyn yn sicr yn gyffredinol, mae profiad cynnar y Comisiynwyr yn pwyntio tuag at y diffyg cydlyniant, diffyg creadigrwydd, a'r methiant i fod yn agored i newid sy'n llesteirio cynnydd gwirioneddol mewn ymdrin â rhai o'r problemau sylfaenol sy'n wynebu'r sefydliad. Mae hyn yn amlwg, er enghraifft, yn y swyddogaeth adnoddau dynol ble mae'r Comisiynwyr yn gorfod ymdrin ag amrediad o faterion o'r gorffennol, gan gynnwys hawliadau cyflog cyfartal sy'n mynd yn ôl dros gyfnod hir a llu o swyddi dros dro. Mae hyn yn cael ei drin yn awr gyda chefnogaeth y WLGA trwy ddatblygu strategaeth AD.

43. Daeth y rhan fwyaf o weithgaredd archwilio ac arolygu blaenorol i'r casgliad er gwaethaf methiant y Cyngor yn nhermau arweinyddiaeth gorfforaethol a chapasiti corfforaethol, fod y gwasanaethau a ddarparwyd i'w ddinasyddion o leiaf yn dderbyniol, ac mewn rhai achosion yn dda. Cred y Comisiynwyr tra bod hyn o bosib wedi bod yn wir yn y gorffennol, mae'r 'craciau'n dechrau ymddangos erbyn hyn' ac mae'r methiannau mewn arweinyddiaeth gorfforaethol a bylchau mewn capasiti a gallu corfforaethol yn dechrau cael effaith ar y gwasanaeth. Mae adroddiad andwyol diweddar CCSIW ar Wasanaethau Plant yn amlygu'r angen am weithredu cyflym ac effeithiol i rwystro rhagor o niwed i wasanaethau.

44. Am y rheswm hwnnw, mae'r Comisiynwyr yn datblygu dull trac deuol sy'n ffocysu ar wneud cynnydd yn erbyn yr argymhellion a chanfyddiadau adroddiadau archwilio ac arolygu blaenorol, ond sydd hefyd yn cychwyn ymdrin â materion datblygiad tymor hirach, fel er enghraifft:-

- yr angen i ddatblygu gweledigaeth gydlynol a rennir sy'n gyrru gweithgaredd;
- yr angen i greu ethos cwsmer-ganolog ymhlith bob aelod o staff ar bob lefel;
- datblygiad set o werthoedd sefydliadol sydd wedi'u diffinio'n glir, fel canllaw i ymddygiad staff;
- yr angen i greu dull cydlynol o gyflenwi gwasanaeth.

45. Barn y Comisiynwyr yw bod rhaid rhoi pwysau cyfartal i'r agweddau hyn ar lywodraethu corfforaethol yn y rhaglen waith os yw cynnydd tymor hirach ystyrlon i'w wneud er mwyn symud ymlaen.

***Argymhelliad Un – Cred Comisiynwyr fod angen dull 'trac deuol' er mwyn sicrhau adferiad cynaliadwy. Yn ychwanegol at y materion a ddynodwyd mewn archwiliad a gwaith arolygu blaenorol, mae'r Comisiynwyr wedi dynodi'r angen i ymdrin â rhai materion sylfaenol hanfodol fel gweledigaeth, gwerthoedd a diwylliant sefydliadol, yn ogystal â datblygu capasiti a gallu personol swyddogion fel ffordd o wella gwasnaethau i ddinasyddion. Gwahoddir y Gweinidog i gadarnhau'r dull hwn.***

## *Rhaglen Waith Strategol y Comisiynwyr*

46. Hyd yma mae'r adroddiad wedi ffocysu ar sefydlu'r cyd-destun y mae'r Comisiynwyr yn gweithredu tu mewn iddo a gosod allan y prif heriau maent yn eu hwynebu i gwrdd â'u cylch gorchwyl. Mae gweddill yr adroddiad yn ffocysu ar yr hyn a gyflawnwyd hyd yma ac yn bwysicach, yr hyn a gynllunnir ar gyfer y dyfodol.

47. Yn amlwg, ni all y Comisiynwyr anwybyddu'r gorffennol; mae'r gorffennol yn rhoi'r cyd-destun yn erbyn yr hwn mae angen gwneud cynnydd cynaliadwy. Fodd bynnag maent wedi ffocysu eu hamser a'u hynni, a byddant yn parhau i wneud, ar weithio gydag Aelodau, gyda swyddogion a gyda Llywodraeth Cymru i gyflenwi dyfodol cynaliadwy sy'n symud ymlaen.

48. Yn enwedig, mae'r Comisiynwyr wedi ffocysu eu hymdrechion ar greu'r amodau ble y gellir cadarnhau'r cynnydd cynnar a wnaed yn ystod cyfnod yr oedd y Bwrdd Adfer mewn bodolaeth, a symud yn gyflym ymlaen i sicrhau ffyniant a lles dinasyddion Ynys Môn tra'r un pryd sicrhau darpariaeth gynaliadwy o wasanaethau lleol effeithiol, sy'n rhoi gwerth am arian.

49. Felly mae Rhaglen Waith Strategol y Comisiynwyr wedi ei sefydlu mewn pum cam i gyd-fynd â chyfnodau adrodd i'r Gweinidog fel a ganlyn:-

- **Chwarter 1** (Ebrill i fis Mehefin 2011) – ymgysylltu, ymyrraeth a sefydlu trefniadau busnes (Ebrill), ail-ymgysylltu gyda Chynghorwyr (ar ôl y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ym Mai), datblygu gweithredu mwy effeithiol ar lefel gorfforaethol ac unigol (Mehefin);
- **Chwarter 2** (Gorffennaf i fis Medi 2011) – ailddiffinio'r broses gynllunio gorfforaethol, strategaeth gyllidebol, ac ymdrin ag anghysonderau mewn strwythur sefydliadol, capasiti a gallu;
- **Chwarter 3** (Hydref i fis Rhagfyr 2011) – ymgysylltu â dinasyddion, adfywio democrataidd ac ymgynghori ar gyfer y broses gynllunio 2012/13.
- **Chwarter 4** (Ionawr i fis Mawrth 2012) – cyhoeddi'r Cynllun Corfforaethol a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig.
- **Trefniadau Gadael** - (Mawrth 2012 ymlaen) - rhoi yn eu lle drefniadau trosglwyddo effeithiol yn dilyn ethol Cyngor newydd (gan gymryd y bydd hyn yn digwydd ym mis Mai fel y cynlluniwyd)

50. Mae'r Comisiynwyr eisoes wedi rhoi rhybudd i'r Gweinidog ynghylch yr angen i gytuno ar y trefniadau trosglwyddo a fyddai'n sicrhau trosglwyddiad llyfn o berchnogaeth ac atebolrwydd yn ôl i Aelodau Etholedig. Bydd y cynigion i gyflawni hyn (ble bo'n briodol) yn cael eu datblygu yn ystod Chwarter Pedwar.

> ***Argymhelliad Dau –*** ***Gwahoddir y Gweinidog i gytuno ar Raglen Waith Strategol lefel uchel y Comisiynwyr fel yr amlinellir ym mharagraff 49 yr adroddiad hwn.***

## *Ymgysylltu cychwynnol*

51. Mae'n bwysig cofio er bod y pum Comisiynydd yn awr yn eu lle, roedd tri ohonynt, sef Mick Giannasi, Gareth Jones a Margaret Foster i wahanol raddau'n ceisio ymddihatru o ymrwymiadau presennol yn ystod Ebrill, Mai a rhan gyntaf mis Mehefin.

52. O'r herwydd, disgynnodd llawer iawn o waith ar ysgwyddau dau o'r Comisiynwyr, Byron Davies ac Alex Aldridge. Yn y cyd-destun hwnnw, mae faint o gynnydd a wnaethpwyd yn sylweddol ac mae seiliau cadarn wedi eu gosod ar gyfer yr heriau sy'n dilyn.

53. Mae'r pum Comisiynydd yn awr yn eu lle ac ers diwedd Mai, mae bob un ohonynt wedi bod yn treulio ar gyfartaledd dau ddiwrnod yr wythnos ar yr Ynys. Er bod angen peth hyblygrwydd i gynnwys cyfarfodydd a digwyddiadau, golyga hyn o dan amgylchiadau arferol, bod o leiaf un Comisiynydd yn bresennol drwy gydol yr wythnos waith. Neilltuwyd Dydd Llun fel diwrnod pan fo'r pum Comisiynydd yn dod at ei gilydd i drafod busnes. Felly mae holl brosesau busnes ffurfiol y Cyngor wedi'u hadeiladu o amgylch y diwrnod hwnnw.

54. Mae cylch misol wedi datblygu, wedi'i seilio ar gyfarfod ffurfiol gwneud penderfyniadau a gynhelir yn gyhoeddus. Ategir hyn gyda chyfarfod gweithio interim gyda swyddogion a chyfarfodydd anffurfiol wythnosol a gynhelir yn breifat rhwng y pum Comisiynydd.

55. O fis Gorffennaf ymlaen, bydd y Comisiynwyr yn cynhyrchu adroddiad yn nodi'r prif bwyntiau yn fisol, er mwyn galluogi swyddogion Llywodraeth Cymru i friffio Gweinidogion ar sail amlach, ac maent yn datblygu briffiadau cyfryngau a dinasyddion misol rheolaidd.

56. Dyluniwyd y prosesau hyn i ategu'r cylchoedd cyfansoddiadol a busnes presennol y Cyngor a thra bydd o bosib angen peth addasu fesul cam pellach, mae'r trefniadau'n gyffredinol yn gweithio'n dda. O ganlyniad, mae'r Comisiynwyr wedi gallu cynnal yr hyn y gellid ei alw'n 'fomentwm busnes fel arfer' ac yn y rhan fwyaf o feysydd busnes maent wedi medru cynyddu'r raddfa o gynnydd.

57. Yn ychwanegol, mae'r Comisiynwyr wedi cymryd arnynt eu hunain y mwyafrif o'r swyddogaethau a arferai gael eu gwneud gan y Pwyllgor Gwaith, gan gynnwys, ble bo'n briodol, gynrychiolaeth ar gyrff a grwpiau allanol. Maent wedi bod yn ofalus i gymryd arnynt eu hunain dim ond y swyddogaethau hynny sydd ag elfen gwneud penderfyniadau gweithredol ynghlwm â nhw, ac o'r 103 o swyddogaethau cynrychioliadol sy'n bodoli ar hyn o bryd, cadwyd 98 o'r rheini ar gyfer cynnwys Aelodau.

58. Mae'r Comisiynwyr hefyd wedi sefydlu fforymau i alluogi deialog reolaidd a pharhaus â Chynghorwyr, swyddogion, staff, undebau a chydranddeiliaid allweddol yn fewnol ac allanol. Dylid gwerthfawrogi'n llawn faint y dasg sy'n wynebu pump o bobl yn gweithio'n rhan-amser, a dim ond

gyda chefnogaeth lawn a gweithredol Aelodau, yn enwedig y rheini sy'n ffurfio'r cysgod bwyllgor gwaith a'r Prif Weithredwr Interim a'i dîm, y bu'n bosib gwneud hynny.

59. Mewn termau ymarferol, daeth y Comisiynwyr at ei gilydd fel tîm yn gyflym iawn ac mae ganddynt amrediad o sgiliau a galluoedd sy'n ategu'i gilydd ac yn ychwanegu gwerth. Mae perthynas waith adeiladol ond heriol wedi datblygu, ac mae synnwyr o elfen gorfforaethol a pherchnogaeth a rennir ymhlith y tîm. Mae adborth yn awgrymu fod y math hwn o ymddygiad model rôl yn cael effaith bositif yn nhermau datblygiad aelodau a swyddogion.

60. Gyda chefnogaeth weithredol y Prif Weithredwr Interim a'i swyddogion, mae trefniadau gweinyddol y Comisiynwyr yn awr yn sefydlu'u hunain ac i bob pwrpas, dri mis ar ôl cydio yn yr awenau o'r newydd, barn y Comisiynwyr yw eu bod yn fras ble y dylent fod ar y cam hwn, ac yn bwysicach, mewn sefyllfa dda i wneud cynnydd sylweddol dros y 12 mis nesaf.

## *Portffolios y Comisiynwyr*

61. Mae gan bob un o'r pum Comisiynydd gyfrifoldebau casgliadol, ar y cyd, a niferus i gynnal swyddogaethau Pwyllgor Gwaith y Cyngor. Fodd bynnag, i bwrpas ymarferol, maent wedi dyrannu iddynt eu hunain gyfrifoldebau portffolio penodol, wedi'u seilio ar eu sgiliau a chefndiroedd yn cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus. Mewn gwirionedd, mae hyn yn dyblygu i raddau helaeth y trefniadau portffolio a oedd yn bodoli dan y Pwyllgor Gwaith, serch bod hynny mewn dull mwy rhesymegol a syml.

62. Mae'r dyraniadau portffolio fel a ganlyn:-

- Alex Aldridge yn arwain ar gynllunio, datblygu economaidd ac amgylchedd;
- Gareth Jones yn arwain ar bortffolio addysg a hamdden;
- Margaret Foster yn arwain ar swyddogaethau tai a gwasanaethau cymdeithasol,
- Byron Davies ar wasanaethau corfforaethol, cyllid a chynllunio busnes;
- Mick Giannasi yn arwain ar ymgysylltu cymunedol a gwasanaethau cyfreithiol.

63. Er bod cyfrifoldebau portffolio wedi eu dyrannu i ddechrau ar sail trefniadau presennol, mewn ymgynghoriad â'r Prif Weithredwr Interim, mae'r Comisiynwyr yn rhagweld y bydd angen rhai addasiadau maes o law fel bo strwythur sefydliadol mwy rhesymegol yn dod yn amlwg o'r adolygiad parhaus o'r canol corfforaethol.

64. Mae bob un o'r Comisiynwyr erbyn hyn wedi cyfarfod â swyddogion yn eu portffolios unigol, ac i wahanol raddau, gan ddibynnu ar yr amser ar gael, wedi sefydlu perthynas waith effeithiol. Bydd y trefniadau gwaith hyn yn parhau i gael eu mireinio a'u datblygu dros y misoedd nesaf ond mewn termau eang, mae bob un o'r Comisiynwyr wedi mabwysiadu dull tebyg, gan weithredu fel ffrind beirniadol a mentor tra'r un pryd yn dal swyddogion yn atebol, mewn amgylchedd cefnogol ond heriol.

65. Mewn sawl maes, mae'r Comisiynwyr eisoes wedi medru defnyddio eu cefndir, sgiliau, a phrofiad, yn ogystal â'u rhwydwaith o gysylltiadau ar draws y sector gyhoeddus yng Nghymru, i herio ffyrdd o feddwl ac ymarfer presennol ac i ychwanegu gwerth at y ffordd mae gwasanaethau'n cael eu cyflenwi'n lleol.

***Argymhelliad Tri** –Gwahoddir y Gweinidog i nodi'r ffordd mae'r Comisiynwyr yn gweithredu ac i ystyried p'un ac i ba raddau y gallai hyn ddarparu templed effeithiol petai angen ymyrraeth debyg yn y dyfodol.*

## *Cynnydd cynnar*

66. O fewn y fframwaith strategol cyffredinol a osodir allan ym mharagraffau 46 i 50 uchod, mae ffocws cychwynnol y Comisiynwyr wedi bod ar bum maes eang. Cafwyd cynnydd ystyrlon ym mhob maes fel a ganlyn:-

67. **Cyfrifoldeb Pwyllgor Gwaith** - Mae'r Comisiynwyr wedi cymryd cyfrifoldeb llawn am swyddogaethau gwneud penderfyniadau gweithredol y cyngor ac yn y broses wedi anfon allan arwydd clir fod y Cyngor 'dan reolaeth newydd'. Pellhawyd Aelodau Etholedig yn syth o'u cyfrifoldebau gwneud penderfyniadau mewn ffordd a oedd efallai'n ymddangos i rai'n ddull clinigol. Roedd y Comisiynwyr yn cydnabod fod hyn yn anodd i'r cyn-Bwyllgor Gwaith yn enwedig. Fodd bynnag, roedd angen anfon neges glir a diamwys i'r cyhoedd, i Aelodau Etholedig, i staff a phartneriaid fel ei gilydd fod y Cyngor yn awr yn cael ei reoli mewn ffordd wahanol, fwy pwrpasol. Roedd y Comisiynwyr angen yn arbennig creu amgylchedd ble'r oedd swyddogion yn cael y rhyddid i weithredu heb ymyrraeth wleidyddol amhriodol a oedd, mewn rhai meysydd, wedi llesteirio cynnydd. Mae hyn wedi cael derbyniad da gan swyddogion, ac mae'n deg dweud fod morâl wedi gwella'n sylweddol o ganlyniad.

68. **Cyfathrebu** – Mae'r Comisiynwyr wedi cyfathrebu eu rolau a chyfrifoldebau i amrediad o gydranddeiliaid, yn fewnol ac allanol, gystal ag y gallent yn yr amser a gafwyd. Cyfarfuont yn fuan gyda Chynghorwyr, uwch reolwyr, staff ac undebau, ac maent wedi bod yn darparu gwybodaeth i bobl Ynys Môn drwy'r cyfryngau lleol a sianelau cyfathrebu eraill, fel gwefan y Cyngor. Yn ychwanegol, bu'r Comisiynwyr mewn trafodaethau cynnar ac ystyrlon gyda phartneriaid awdurdod lleol, cyrff rheoleiddio, y diwydiant ynni ac amrediad o gydranddeiliaid eraill, sydd i gyd, i raddau helaeth, yn dal yr allwedd i gynaladwyedd yr Ynys a'r Cyngor i'r dyfodol.

69. **Parhad Gweithredol** - Wrth sefydlu eu methodoleg gweithio, bu'r Comisiynwyr yn ofalus i wrthbwyso'r angen am newid yn erbyn yr angen i sicrhau, cyn belled ag y bo hynny'n bosib, na chafwyd unrhyw doriad, gan gynnal parhad gweithredol, neu a'i roi fel arall, 'busnes fel arfer'. Mae'r dull hwn wedi galluogi'r Comisiynwyr i symud yn gyflym drwy amrediad o raglenni, polisïau, penderfyniadau strategol a diwygiadau cyfansoddiadol sy'n hanfodol i ddatblygiad y Cyngor i'r dyfodol ac yn bwysicach i ffyniant economaidd a lles pobl Ynys Môn i'r dyfodol. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft:-

- cynllun busnes a chyllideb ar gyfer 2011/12;
- fframwaith cynllunio ar gyfer y rhaglen Ynys Ynni;
- cymeradwyo'r cynllun datblygu rhanbarthol ar y cyd gyda Chyngor Gwynedd;
- cymeradwyo fframwaith i foderneiddio ysgolion;
- polisïau newydd ar wiriadau CRB a gweithdrefnau cynllunio.

70. I fod yn deg, mae'n briodol nodi fod rhai o'r pethau hyn wedi eu datblygu gan swyddogion gydag ymwneud gweithredol y cyn-Bwyllgor Gwaith, er yn nodweddiadol roedd y cynnydd gweinyddol wedi ei lesteirio gan y gwrthdrawiadau gwleidyddol a phersonol sydd wrth wraidd problemau'r Cyngor. Dangosir hyn gan y ffaith bod deunaw polisi neu bapurau sylweddol wedi eu symud ymlaen yng nghyfarfod cyntaf Bwrdd y Comisiynwyr ym mis Mawrth. Mewn rhai achosion, mae angen rhagor o waith, yn enwedig yn achos y cynllun busnes corfforaethol, y gyllideb a'r blaengynllun gwaith, ond ym marn y Comisiynwyr, maent yn rhoi sail resymol ar gyfer symud ymlaen.

71. **Trosglwyddo Rheolaeth** - Mae Comisiynwyr wedi treulio cryn amser ac ymdrech yn rheoli ymadawiad y Rheolwr Gyfarwyddwr Interim er mwyn sicrhau bod y trosglwyddiad mor llyfn â phosib, ac yn creu cyn lleied o aflonyddwch â phosib. Ar ôl ystyried amrediad o opsiynau, gan gynnwys nifer o ymgeiswyr potensial a ddynodwyd gan ymgynghorwyr allanol, mae'r Comisiynwyr yn hynod falch fod y Gweinidog wedi derbyn eu cynnig bod Cyfarwyddwr Addysg a Hamdden y Cyngor, Richard Parry-Jones, yn cael ei benodi'n Bennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig a Phrif Weithredwr ar sail interim, tra'n disgwyl penodiad arall tymor hirach. Mae sefydlogrwydd a pharhad yn hanfodol ar y cam hwn yn esblygiad y Cyngor, ac mae'r Comisiynwyr yn ddiolchgar bod Mr. Parry-Jones yn barod i ysgwyddo'r her hon. Mae ei benodiad wedi ei groesawu. Mae ei hygrededd personol, ei enw da, ac yn enwedig ei record o weithio'n gydweithredol ym maes addysg yn cynnig cyfle i adeiladu pontydd er mwyn symud ymlaen. Cred y Comisiynwyr mai ef yw'r person cywir i arwain y sefydliad ar y pwynt hwn, ac maent yn gweithio'n gynhyrchiol ag ef i geisio sicrhau dyfodol cynaliadwy i'r Cyngor.

72. **Asesiad** – Mae'r Comisiynwyr wedi bod yn cymryd stoc, yn asesu pa gynnydd a wnaed, ac yn bwysicach, beth sydd angen ei wneud yn awr i barhau adferiad y Cyngor ac adeiladu dyfodol cynaliadwy a fydd yn y pen draw yn cyflenwi buddiannau i bobl Ynys Môn. Yn y broses, maent wedi ymgynghori'n eang gyda phrif gydranddeiliaid, fel Llywodraeth Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru, archwilwyr, Pricewaterhouse Cooper LLP a'r cyn-Fwrdd Adfer. Yn enwedig, bu'r Comisiynwyr yn gweithio'n agos â rheoleiddwyr i alinio cynlluniau gwaith mor effeithiol â phosib gyda'r agenda newid. Maent hefyd wedi gweithio'n agos iawn â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru sydd wedi bod o gymorth mawr yn rhoi mynediad at amrediad o ymgynghorwyr arbenigol ac arbenigwyr pynciau sydd wedi cefnogi'r Comisiynwyr mewn meysydd allweddol. Bu penodiad Doug Elliott, cyn bennaeth Swyddfa Archwilio Cymru, yn bwysig, ac mae'n cynnal arolwg o wasanaethau corfforaethol yn y Cyngor ac yn tynnu at ei gilydd y gwahanol feysydd o waith sydd dal angen eu cwblhau, er mwyn sicrhau bod blaengynllun gwaith y Comisiynwyr yn dal yr argymhellion hynny o adolygiadau blaenorol sydd dal angen eu cwblhau ac sy'n parhau'n berthnasol. Hefyd mae'n gweithio ochr yn ochr â'r Prif Weithredwr Interim mewn amser real i ddatblygu rhai o'r newidiadau sefydliadol sydd eu hangen er mwyn adeiladu capasiti a gallu corfforaethol.

73. **Rhwydweithio** – Trwy eu rhwydwaith bresennol o gysylltiadau a pherthynas weithio adeiladol gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, mae'r Comisiynwyr hefyd wedi medru cysylltu swyddogion Ynys Môn gyda chydweithwyr mewn Cynghorau eraill sy'n cael eu cydnabod fel rhai sy'n cyflenwi arfer gorau yn eu maes. Er enghraifft, cysylltwyd staff o'r tîm cynllunio corfforaethol gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen a Heddlu Gwent, a gydnabyddir yn eang oherwydd eu dull ardderchog o ymdrin ag ymgysylltu cymunedol, maes ble mae angen i'r Cyngor hwn wella ei ddull yn sylweddol. Hefyd cafwyd ymgynghoriad gyda Chynghorau Conwy a Sir Gaerfyrddin ynghylch materion cynllunio corfforaethol. Hefyd cyfarfu'r Comisiynwyr gydag uwch swyddogion polisi o Lywodraeth Cymru i ddynodi cyfleoedd i wella gwasanaethau craidd y Cyngor.

## *Crynodeb o gynnydd cynnar*

74. Yn gryno, yn eu pedwar mis cyntaf yn y swydd, mae'r Comisiynwyr wedi:-

- cymryd arnynt eu hunain gyfrifoldeb y Pwyllgor Gwaith;
- sefydlu trefniadau gweithio effeithiol;
- creu sefydlogrwydd rheolaethol gyda phenodiad interim Richard Parry-Jones;
- cynnal busnes fel arfer a gwneud cynnydd pwysig ar amrediad o brif faterion;
- cymryd stoc a dechrau cynllunio cynllun gweithredu i symud ymlaen;
- cysylltu staff i'w rhwydwaith o gysylltiadau.

## *Blaenoriaethau brys*

75. Tra bo cynlluniau tymor hirach y Comisiynwyr yn cael eu datblygu, mae angen gwneud llawer i gynnal y cynnydd cynnar a wnaed. Yn y tymor byr i ganolig, bydd y Comisiynwyr yn gweithio gyda'r Prif Weithredwr a'i dîm mewn saith maes allweddol, y cyfan wedi'u dynodi yn eu hasesiad cychwynnol (ac mewn adolygiadau blaenorol) fel rhai sydd angen sylw buan, a'r cyfan yn hanfodol i gyflenwad y weledigaeth tymor hirach.

76. Mae'r saith maes allweddol y mae'r Comisiynwyr yn ffocysu eu bwriadau arnynt ar hyn o bryd fel a ganlyn -

77. **Adolygiad o'r Canol Corfforaethol** - Un o flaenoriaethau allweddol y Comisiynwyr wrth adeiladu dyfodol cynaliadwy yw cryfhau 'Canol Corfforaethol' y sefydliad. Daeth asesiadau blaenorol i'r casgliad, er bod anghenion datblygu sylweddol yn bodoli yn nhermau llywodraethu corfforaethol ac arweinyddiaeth gorfforaethol, mae'r gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor i'w gymunedau yn gyffredinol ar lefel dderbyniol ac mewn rhai achosion ar lefel dda, o'i gymharu â chynghorau tebyg. Fodd bynnag, mae bylchau'n bodoli, ac mewn rhai meysydd mae gwendidau nad ydynt o anghenraid yn cael eu cydnabod gan y rhai sy'n rhedeg y gwasanaethau. Er nad yw gwasanaethau'r Cyngor at ei gilydd heb dorri, mae'r Comisiynwyr o'r farn bod y rhagolygon ar gyfer gwelliant pellach yn gyfyngedig oni bai bod gweithredu prydlon a phendant yn cael ei gymryd i gryfhau capasiti a gallu swyddogaethau'r prif wasanaethau corfforaethol, fel rheolaeth ariannol, cynllunio busnes, cynllunio adnoddau ac adnoddau dynol. Y swyddogaethau hynny yw ymennydd a chalon y sefydliad, ac oni bai eu bod yn cael eu cryfhau, ni ellir cynnal ansawdd y gwasanaethau mae'r Cyngor yn eu darparu, heb sôn am ei wella, yn erbyn cefndir o gyfyngiadau ariannol llym.

78. Nododd asesiad cychwynnol y Comisiynwyr fylchau yn y Canol Corfforaethol, rhai'n strwythurol, rhai ar sail sgiliau, a rhai'n gysylltiedig â diffyg capasiti mewn meysydd hanfodol. Ar hyn o bryd mae adolygiad o'r Canol Corfforaethol yn cael ei gynnal gan Doug Elliott, ymgynghorydd a benodwyd ar ran y Comisiynwyr gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, a bydd ei ganfyddiadau'n ffurfio rhan sylweddol o gynllun gweithredu tymor hirach y Comisiynwyr i symud ymlaen.

79. Mewn ymgynghoriad â'r Comisiynwyr a gyda chefnogaeth weithredol Doug Elliott, mae'r Prif Weithredwr Interim eisoes wedi datblygu cynigion ar gyfer ailstrwythuro'r sefydliad i gadarnhau a gwella'r gwasanaethau cefnogol corfforaethol a pharatoi swyddogaethau ar gyfer aliniad cryfach â'r agenda newid rhanbarthol. Ar hyn o bryd mae'r Comisiynwyr yn ystyried y cynigion hyn, ac maent yn bwriadu symud yn gyflym i weithredu'r trefniadau diwygiedig. Mae gwaith datblygu hefyd yn cael ei gynnal mewn meysydd eraill, yn nodedig yn nhermau rheoli perfformiad a risg.

80. **Ymgysylltu cymunedol** – Dylai buddiannau gorau dinasyddion Ynys Môn fod wrth wraidd bob dim a wna'r Cyngor. Yn drist iawn, awgryma asesiad y Comisiynwyr ac asesiad y rhai sydd wedi adolygu'r Cyngor o'u blaen, nad dyma yw'r achos bob amser. Dros y pum mlynedd ddiwethaf, mae'r ffordd mae cyrff cyhoeddus yn ymgysylltu gyda'r rhai maent yn eu gwasanaethu wedi newid yn sylweddol. Nid yw pobl bellach yn fodlon i wasanaethau gael eu gorfodi arnynt. Mae llawer o bobl eisiau cymryd mwy o ran mewn ffurfio a dylanwadu ar y gwasanaethau sy'n effeithio ar eu bywyd bob dydd. Maent hefyd eisiau i weision cyhoeddus fod yn weladwy a hygyrch, ac maent eisiau gwybodaeth fel y gallant ddal y rhai sy'n darparu eu gwasanaethau i gyfrif. A phan fo pethau'n mynd o chwith, maent eisiau gweithredu prydlon ac effeithiol i'w hunioni.

81. Tra bo Cynghorau eraill wedi cofleidio ymgysylltu cymunedol ac wedi ail-ddylunio eu gwasanaethau o amgylch anghenion a dyheadau eu dinasyddion, mae Ynys Môn wedi disgyn yn ôl, ac nid yw wedi buddsoddi'r adnoddau sydd eu hangen yn y maes pwysig hwn o fusnes. Gan weithio gyda chefnogaeth allanol gan gynghorau sydd ag arbenigedd cydnabyddedig yn y maes, mae swyddogion yn datblygu Strategaeth Ymgysylltu Cymunedol ddiwygiedig a fydd yn ffurfio rhan sylweddol o'n strategaeth tymor hirach. Mae ymwneud Aelodau Etholedig ac yn enwedig y cysgod Bwyllgor Gwaith yn elfen hanfodol yn llwyddiant y rhaglen hon, ac mae cefnogaeth eang i'r datblygiad hwn.

82. **Cynllunio busnes** – Er bod y Comisiynwyr wedi etifeddu cynllun busnes a chyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol 2011/12, nid oes ganddo'r lefel o soffistigedigrwydd sydd ei angen i adeiladu dyfodol cynaliadwy. Mewn gwirionedd cyflwynwyd fait accompli i'r Comisiynwyr, o gofio fod y cynllun yng nghamau olaf ei gymeradwyo ar adeg yr ymyrraeth. Yn enwedig, nid yw'r cysylltiadau rhwng y broses gynllunio, y broses gyllidebu, a chynllunio adnoddau dynol wedi'u diffinio'n ddigonol. Mae fframwaith cynllunio a rheoli perfformiad diwygiedig yn cael ei ddatblygu a fydd yn arwain at gynllun mwy cydlynol sy'n edrych ymlaen ar gyfer 2012/13 wedi ei seilio ar ymgynghoriad mwy ystyrlon gyda dinasyddion a chydranddeiliaid eraill. Mae hefyd wedi'i ddylunio i greu integreiddio llawer cryfach rhwng cynllunio corfforaethol ac ariannol. Eto, mae'r gwaith hwn wedi ei seilio ar arfer da a ddynodwyd mewn cynghorau eraill.

83. **Cydweithredu a Gwasanaethau a Rennir** – Yn yr amgylchedd ariannol presennol, mae'n hanfodol fod awdurdodau lleol, yn enwedig awdurdodau llai fel Ynys Môn, yn manteisio ar y cyfleoedd ar gyfer effeithlonrwydd sydd wrth wraidd cydweithredu a gwasanaethau a rennir. Tra bod Ynys Môn wedi bod yn flaenllaw gyda pheth gwaith cydweithredol sy'n meddwl ymlaen ym maes addysg ac wedi datblygu rhai gwasanaethau a rennir gwerthfawr ar lefel weithredol, mewn termau cyffredinol, ni chofleidiwyd yn llawn y cyfleoedd i ddatblygu cynghrair strategol gydag asiantaethau eraill ac yn enwedig, y pum awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru. Mae hyn yn rhannol oherwydd diffyg bod yn agored i newid ac yn rhannol oherwydd canfyddiad fod y Cyngor wedi datgysylltu o'r agenda cydweithredu. Gyda chefnogaeth weithredol y Prif Weithredwr Interim a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, mae'r Comisiynwyr wedi rhoi arwydd o barodrwydd i ailgysylltu ac yn awr maent yn cyfrannu'n adeiladol tuag at nifer o fforymau Partneriaeth Strategol, yn fwyaf nodedig, at Bartneriaeth Strategol Gogledd Cymru.

84. **Datblygu Economaidd** – Mae consensws eang fod datblygu economaidd yn allweddol i ffyniant yr Ynys i'r dyfodol ac yn y cyswllt hwn, mae'r Comisiynwyr wedi gafael yn yr awenau yn achos nifer o raglenni allweddol fel Wylfa, Ynys Ynni a'r Cynllun Datblygu Rhanbarthol. Datblygwyd y mentrau hyn gan y cyn-Bwyllgor Gwaith ond bu oedi oherwydd yr ansefydlogrwydd gwleidyddol a oedd yn bodoli o fewn y Cyngor. Mae'r Comisiynwyr wedi rhoi arwydd o ddull mwy cydweithredol, mwy hwylusol sydd wedi cael derbyniad da gan gydranddeiliaid a swyddogion fel ei gilydd. Eto, bydd hwn yn faes allweddol yng nghynlluniau tymor hirach y Comisiynwyr. Mae amser yn hollbwysig, ac mae hyn yn golygu cryn alw ar amser ac ynni'r Comisiynwyr.

85. **Newid Cyfansoddiadol** – O dan delerau'r ymyrraeth, bydd unrhyw newidiadau i'r Cyfansoddiad angen caniatâd y Gweinidog. Mae nifer o newidiadau arfaethedig wedi eu cynnig gan y Comisiynwyr a derbyniwyd y mwyafrif gan y Cyngor. Yn enwedig, gwnaethpwyd newidiadau i reolau cynllunio er mwyn cynyddu hyder y cyhoedd, a gweithredwyd polisi CRB.

86. **Datblygiad Gwasanaeth** - Er na fu'n ddigon i osgoi penodiad y Comisiynwyr, heb amheuaeth cafwyd cynnydd mewn sawl maes ers camau cyntaf yr ymyrraeth. Mae llawer o'r clod am hyn yn ddyledus i swyddogion y Cyngor gyda chefnogaeth ac arweiniad y cyn-Arweinydd a'i Bwyllgor Gwaith. Fodd bynnag, mae llawn mor deg nodi fod cynnydd wedi ei lesteirio gan y syrthni gwleidyddol sydd wedi bod yn y Cyngor ers nifer o flynyddoedd.

87. Mae'r Comisiynwyr yn gweithio'n weithredol gyda'r Prif Weithredwr Interim a'i uwch dîm i greu amgylchedd cefnogol ond heriol sy'n rhoi rhyddid gyda chyfyngiadau iddynt ddatblygu gwell gwasanaethau i bobl Ynys Môn. Yn fyr, mae'r Awdurdod Lleol yn dod yn fwy effeithiol ac mae'r Comisiynwyr yn gweithio gyda swyddogion fel ffrindiau beirniadol er mwyn sicrhau bod cynnydd yn cael ei gynnal a chreu etifeddiaeth i'r dyfodol.

## *Crynodeb o flaenoriaethau brys*

88. Yn gryno, y blaenoriaethau brys i'r Comisiynwyr, y byddant yn adeiladu arnynt erbyn Medi i greu 'map ffordd' tymor hirach yw:

- adolygu a chryfhau'r Canol Corfforaethol;
- datblygu Strategaeth Ymgysylltu Cymunedol;
- gwella'r broses gynllunio busnes ac ariannol;
- ailgysylltu â'r agenda cydweithredu a gwasanaethau a rennir;
- datblygu'r rhaglen datblygu economaidd;
- cryfhau'r Cyfansoddiad ble bo angen;
- gweithio gyda swyddogion i hwyluso gwell gwasanaethau i bobl Ynys Môn.

***Argymhelliad Pedwar* –*Gwahoddir y Gweinidog i nodi'r blaenoriaethau brys y mae'r Comisiynwyr yn eu dilyn ar hyn o bryd ac i gydnabod y cynnydd cynnar a wnaethpwyd.***

## *Cynlluniau tymor hirach*

89. Bwriada'r Comisiynwyr gynhyrchu eu strategaeth tymor hirach, wedi'i chefnogi gan gynllun gweithredu manwl, erbyn dechrau Medi. Byddant yn gosod allan yr hyn sydd wedi ei ddisgrifio gan Gynghorwyr fel 'map ffordd' i'r dyfodol. Mae'r term hwn wedi ennill ei blwyf ac wedi ei fabwysiadu gan y Comisiynwyr.

90. Bydd y 'map ffordd' yn cadarnhau'r cynnydd a wnaethpwyd hyd yma ac yn gosod allan weledigaeth strategol tymor hirach a fydd:

- yn gosod dinasyddion Ynys Môn wrth wraidd bob peth a wna'r Cyngor;
- yn adfer hyder y cyhoedd a chydranddeiliaid yn y Cyngor a'i weinyddiaeth;
- yn cyflenwi gwasanaethau cost effeithiol a werthfawrogir gan y cyhoedd;
- yn dod â ffyniant a lles tymor hir i bobl yr Ynys;
- yn sicrhau cynaladwyedd i'r dyfodol yn erbyn cefndir o gyfyngiadau ariannol sylweddol.

91. Ar ryw bwynt, rhaid i'r ymyrraeth ddod i ben. Fodd bynnag, ni all hynny ddigwydd hyd nes bo'r rheini a ddewisir gan eu cyd ddinasyddion i lywodraethu'r Ynys yn medru gwneud hynny mewn dull cyfrifol, colegol ac effeithiol. Am y rheswm hwnnw, bydd y cynllun gweithredu tymor hirach yn cefnogi'n llawn uchelgais Llywodraeth Cymru i hyrwyddo adferiad democrataidd i'r Ynys trwy annog rhagor o ymgysylltiad y cyhoedd mewn democratiaeth leol. Oni bai bod gwelliant sylfaenol yn y ffordd mae'r broses ddemocrataidd yn gweithredu yn Ynys Môn, yna ni fydd unrhyw gynnydd a wnaed yn nhermau capasiti a gallu yn gynaliadwy.

92. Mae rhaglen adfywio ddemocrataidd yn cael ei datblygu ar hyn o bryd a bydd yn cael ei lansio yn Sioe Môn ar 08 Awst 2011.

> ***Argymhelliad Pump* – *Gwahoddir y Gweinidog i gytuno ar y cyfeiriad strategol mae'r Comisiynwyr yn bwriadu ei adlewyrchu yn eu cynlluniau tymor hir (fel y nodwyd ym mharagraff 90 uchod)***

## *Perthynas gydag Aelodau Etholedig*

93. Cred y Comisiynwyr bod datblygiad perthynas waith effeithiol gydag Aelodau Etholedig yn fater hanfodol i symud y Cyngor ymlaen. O'r herwydd mae cryn amser ac ynni wedi ei fuddsoddi yn y maes hwn.

94. Mewn termau cyffredinol, mae'r berthynas sydd wedi datblygu rhwng y Cynghorwyr a'r Comisiynwyr yn un adeiladol ac yn awr mae synnwyr o dderbyniad wedi ymddangos yn lle'r dicter cychwynnol. Yn wir, mae adborth anffurfiol yn awgrymu fod nifer o Aelodau Etholedig yn awr wedi derbyn ymyrraeth ac yn gweld presenoldeb y Comisiynwyr fel cyfle gwirioneddol i wneud cynnydd. Os oes dicter amlwg, mae'n tueddu i gael ei sianelu tuag at Weinidogion a swyddogion y Llywodraeth yn hytrach na'r Comisiynwyr.

95. At eil gilydd, ers y cyfarfod cecrus o'r Cyngor Llawn ym mis Mai, mae'r rhyngweithio rhwng Cynghorwyr, Comisiynwyr a Swyddogion wedi bod yn gymedrol, cytbwys, a chydweithredol. Fodd bynnag, mae adborth anffurfiol yn awgrymu fod rhai o'r rheini yr oedd eu hymddygiad yn aflonyddgar yn y gorffennol yn 'cadw eu pennau i lawr' gan ddisgwyl i'r ymyrraeth ddod i ben er mwyn 'ailgychwyn' busnes fel arfer. Mae hefyd beth tystiolaeth o friffio negyddol ond nid oes dim byd sylweddol wedi ei ryddhau i'r arena gyhoeddus. Er gwaethaf y materion hyn, mae arwyddion clir o ddull mwy effeithiol yn ymddangos ac mae ansawdd cyfraniadau gan Aelodau i gyfarfodydd a fforymau eraill wedi gwella'n amlwg.

96. A siarad yn gyffredinol, ychydig o wrthsafiad neu wrthwynebiad amlwg a gafwyd i'r polisïau a strategaethau a gymeradwywyd neu a argymhellwyd gan y Comisiynwyr. Yn wir mae'r gallu i roi penderfyniadau dadleuol ymlaen mewn ffordd anwleidyddol wedi arwain at ddadl â llawer mwy o ffocws iddi, ar amrediad o faterion pwysig na fyddai yn y gorffennol wedi mynd fawr tu draw i'r 'llinell gychwyn'. Yr un eithriad nodedig fu newid mewn rheolau cynllunio sy'n rhwystro aelodau'r pwyllgor cynllunio rhag pleidleisio ar geisiadau yn eu Wardiau eu hunain. Cyfeiriwyd hwn yn ôl i'r Comisiynwyr i'w ystyried ymhellach ond cadarnhawyd y penderfyniad gwreiddiol. Arweiniodd hyn at beth sylwadau negyddol yn y wasg gan Gynghorwyr, ond cafwyd adborth positif gan y cyhoedd.

97. Mae'r Comisiynwyr yn ymwybodol iawn na allai'r profiad o ymyrraeth fod wedi bod yn hawdd i rai Cynghorwyr, yn enwedig y rheini a geisiodd gofleidio'r heriau a gyflwynwyd gan Weinidogion. Ar y cychwyn roedd nifer yn teimlo wedi'u dibrisio, ac yn cwestiynu pa rôl oedd ganddynt i'w chwarae yn natblygiad y Cyngor i'r dyfodol.

98. Erbyn hyn mae'r Comisiynwyr wedi rhoi sicrwydd i Aelodau fod eu rôl cyn bwysiced yn awr ag y bu erioed. Bydd y ffordd mae Cynghorwyr yn ymateb yn y misoedd sydd i ddod nid yn unig yn ffurfio dyfodol y Cyngor, ond bydd hefyd yn dylanwadu ar benderfyniad y Gweinidogion ynghylch dychwelyd y pwerau gwneud penderfyniadau gweithredol i'r Cyngor.

99. Mae Aelodau'n parhau i fod â dylanwad sylweddol yn eu cymunedau lleol, ac mae'r graddau maent yn cefnogi'r hyn mae'r Comisiynwyr yn ceisio ei wneud yn hanfodol i'r ffordd y caiff ei dderbyn gan y cyhoedd.

100. Pan gawsant eu penodi gan y Gweinidog, gwnaeth y Comisiynwyr benderfyniad ymwybodol i ymbellhau'r Cynghorwyr oddi wrth y broses gwneud penderfyniadau er mwyn anfon arwydd clir a diamwys fod pethau wedi newid. I Aelodau'r Pwyllgor Gwaith yn enwedig, mae'n rhaid bod hynny wedi bod yn anodd. Nid yw'r Comisiynwyr yn ymddiheuro o gwbl am hyn. Roedd rhaid ei wneud yn y ffordd yma. Fodd bynnag, nid yw'r ymbellhau rhwng Aelodau sydd wedi eu hethol yn ddemocrataidd a swyddogaethau gwneud penderfyniadau'r Cyngor yn gynaliadwy.

101. Cychwynnodd y 'broses iachau' pan benodwyd Arweinydd newydd a Chysgod Bwyllgor Gwaith ar 12 Mai 2011. Bu hon yn broses cymharol ddidrafferth heb unrhyw arwydd ar y cam hwn o'r math o ffragmentieddio gwleidyddol a fu mewn gweinyddiaethau blaenorol.

102. Mae'r Comisiynwyr wedi dweud bob amser mai eu bwriad yw bod yn Ynys Môn am gyn lleied o amser â phosib. Fodd bynnag, cyn y gallant argymell i'r Gweinidog fod eu gwaith wedi'i wneud, byddant angen bod y siŵr fod yr amodau'n iawn ac na fydd problemau'r gorffennol yn ailymddangos cyn gynted â'u bod yn gadael. I hynny ddigwydd, rhaid cael newid sylfaenol mewn agweddau, diwylliannau ac ymddygiad.

103. Yn amlwg, mae unrhyw benderfyniad ynghylch dychwelyd pwerau Pwyllgor Gwaith i Aelodau Etholedig beth amser i ffwrdd, a beth bynnag penderfyniad i'r Gweinidog fydd hwn, wedi ei seilio ar argymhellion gan y Comisiynwyr. Fodd bynnag, fel cam cychwynnol, mae'r cysgod bwyllgor gwaith wedi ei ail-ymgysylltu i weithio ochr yn ochr â'r Comisiynwyr i arsyllu ar y ffordd maent yn gweithredu fel grŵp ac yn eu portffolios unigol. Mewn termau cyffredinol, mae'r perthnasau sy'n datblygu'n profi i fod yn rhai buddiol y naill i'r llall, a bu cyfnewid defnyddiol ddwy ffordd o farn a gwybodaeth. Gwahoddir y cysgod bwyllgor gwaith i fynychu cyfarfodydd y Bwrdd Comisiynwyr ac mae'n cael hawl i siarad ar eitemau agenda trwy drefniant blaenorol.

104. Yn y cyfamser, er bod eu pwerau gwneud penderfyniadau wedi eu tynnu ymaith, mae Cynghorwyr yn cadw cyfrifoldeb strategol am gyfeiriad cyffredinol a rheolaeth y Cyngor. Yn yr achos hwn, mae'n bwysig eu bod yn dal y Comisiynwyr i gyfrif a ble bo'n briodol, yn sgriwtineiddio eu penderfyniadau drwy'r sianelau priodol.

105. Un o'r meysydd ble mae rhaid i'r Cyngor ddod yn fwy effeithiol yw'r ffordd mae'n defnyddio sgriwtini fel swyddogaeth, ac mae presenoldeb y Comisiynwyr yn rhoi cyfle i'w ddatblygu i broses mwy sylweddol ac ystyrlon. Mae ymdrech fawr wedi mynd i mewn i wella'r broses sgriwtini ac mae'r arwyddion cynnar yn galonogol. Yn arbennig, mae'r amserlen sgriwtini wedi ei halinio gyda Blaenraglen Waith y Comisiynwyr er mwyn sicrhau bod prif bolisïau a strategaethau yn destun i sgriwtini cyn iddynt gael eu cyflwyno i'r Comisiynwyr am benderfyniad.

106. Anogwyd Aelodau i barhau i gynrychioli buddiannau eu hetholwyr ac maent wedi cael caniatâd i gael mynediad at swyddogion ar faterion lleol sy'n ymwneud â nhw. Fodd bynnag, mae'r fath fynediad yn cael ei fonitro'n ofalus er mwyn osgoi ymddygiad amhriodol y gorffennol, ac mae swyddogion wedi eu hannog i herio ble bo angen.

107. Trwy gyfraith, mae Aelodau Etholedig wedi cadw nifer o brif swyddogaethau fel Cynllunio ac Archwilio ac maent yn cynrychioli'r Cyngor ar amrediad eang o faterion. Yn wir, o'r 103 o benodiadau allanol mae'r Cyngor yn eu gwneud, dim ond pump o'r rheini sydd wedi eu cadw gan y Comisiynwyr oherwydd natur strategol y penderfyniadau a wneir.

108. Profiad y Comisiynwyr hyd yma yw bod y mwyafrif o Gynghorwyr wedi bod yn gefnogol ac wedi dangos parodrwydd i weithio gyda'r Comisiynwyr i roi'r Cyngor ar seiliau mwy effeithiol i'r dyfodol. Mae'r rheini yr oedd eu hymddygiad yn creu problemau'n flaenorol yn dal i fod yn bresennol, er i fod yn deg, maent wedi cymedroli eu hymddygiad. Fodd bynnag, mae'n amlwg fod angen gwneud cynnydd sylweddol cyn y gall y Comisiynwyr gynghori'r Gweinidog fod yr amodau wedi eu creu ble y byddai'n briodol dod â'r ymyrraeth i ben.

***Argymhelliad Chwech* –Gwahoddir y Gweinidog i nodi arwyddion calonogol o newid yn ymddygiad a dull y mwyafrif o aelodau a etholwyd yn ddemocrataidd.**

***Argymhelliad Saith* – Gofynnir i'r Gweinidog gadarnhau'r penderfyniad i ail-ymgysylltu Aelodau etholedig ar ôl yr AGM ym mis Mai ac i ganiatáu i'r Comisiynwyr wneud consesiwn pellach yn ôl eu disgresiwn.**

***Argymhelliad Wyth*– Er fod cynnydd yn cael ei wneud, byddai'r Comisiynwyr yn cynghori'r Gweinidog nad yw'r amodau wedi eu creu eto ble y gellid ystyried dychweliad i reolaeth ddemocrataidd lawn.**

## *Adroddiad Chwarter 2*

109. Mae adroddiad cynnydd nesaf y Comisiynwyr i fod i'w gyflenwi ar ddiwedd Medi 2011. Erbyn hynny, bydd y cynllun gweithredu tymor hirach angenrheidiol a'r fethodoleg gwerthuso perfformiad yn eu lle i alluogi paratoi asesiad mwy gwrthrychol, wedi'i seilio ar ddeilliannau. Dylai hynny yn ei dro alluogi'r Comisiynwyr i wneud rhai barnau ac argymhellion mwy cadarn a phendant i'r Gweinidog eu hystyried.

110. Bydd Gweinidogion yn ymwybodol bod y sefydliad ar hyn o bryd yn wynebu nifer o risgiau corfforaethol, nid y lleiaf y diffyg fframwaith cadarn i reoli risg. Ymdrinnir â'r bwlch hwn erbyn diwedd Medi. Fodd bynnag, yn y cyfamser, mae'r Comisiynwyr yn gweithio'n agos gyda'r Prif Weithredwr Interim er mwyn sicrhau bod cynlluniau lliniaru effeithiol yn eu lle. Bydd asesiad cynhwysfawr o risg yn cael ei ymgorffori yn Adroddiad Chwarter 2.

## *Casgliadau*

111. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb byr o'r cynnydd mae'r Comisiynwyr wedi ei wneud yn ystod eu pedwar mis cyntaf ac mae'n gosod allan mewn termau cyffredinol y prif faterion y bwriadant ymdrin â nhw fel eu bod yn cyflawni eu dyletswyddau a chyfrifoldebau dros y deuddeng mis nesaf.

112. Yn y dyfodol agos, bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn cynhyrchu ei adroddiad diweddaru Asesiad Corfforaethol. Mae'r Comisiynwyr wedi cyfarfod â'r Archwilydd Cyffredinol i drafod y prif ganfyddiadau ac er nad yw'r adroddiad wedi ei gyhoeddi'n ffurfiol eto, mae'n amlwg bod graddfa sylweddol o gydberthynas gyda'r farn a fynegwyd yn yr adroddiad hwn.

113. Mae'r ddau adroddiad yn dod i gasgliad bras ei bod yn rhy gynnar ar hyn o bryd dod i farn derfynol ynghylch llwyddiant neu fel arall y cam diweddaraf o ymyrraeth. Mae llawer iawn o waith ar ôl i'w wneud i gyflenwi yn erbyn argymhellion adroddiadau arolygiaeth blaenorol, heb sôn am ymdrin â'r materion strategol sylfaenol o weledigaeth, gwerthoedd a diwylliant sefydliadol a fydd yn helpu cyflenwi adferiad cynaliadwy tymor hirach.

114. Fodd bynnag, adeiladwyd sylfeini cadarn, sefydlwyd trefniadau gweithio effeithiol, ac mae'r gwaith o gynhyrchu sail gadarn ar gyfer adferiad cynaliadwy wedi cychwyn yn dda. Mae arwyddion o dwf mewn sawl maes, nid y lleiaf yn y ffordd mae'r mwyafrif o Aelodau Etholedig wedi ymateb yn bositif i'r ymyrraeth ddiweddaraf a'r sefydlogrwydd a grëwyd gyda phenodiad Richard Parry Jones fel y Prif Weithredwr Interim.

## *Crynodeb o argymhellion*

115. Mae'r adroddiad yn cynnwys wyth o argymhellion y byddai'r Comisiynwyr yn gwahodd y Gweinidog eu hystyried, sef:-

**Argymhelliad Un – Cred Comisiynwyr fod angen dull 'trac deuol' er mwyn sicrhau adferiad cynaliadwy. Yn ychwanegol at y materion a ddynodwyd mewn archwiliad a gwaith arolygu blaenorol, mae'r Comisiynwyr wedi dynodi'r angen i ymdrin â rhai materion sylfaenol hanfodol fel gweledigaeth, gwerthoedd a diwylliant sefydliadol yn ogystal â datblygu capasiti a gallu personol swyddogion, fel ffordd o wella gwasanaethau i ddinasyddion. Gwahoddir y Gweinidog i gadarnhau'r dull hwn.**

**Argymhelliad Dau – Gwahoddir y Gweinidog i gytuno ar Raglen Waith Strategol lefel uchel y Comisiynwyr fel yr amlinellir ym mharagraff 49 yr adroddiad hwn.**

**Argymhelliad Tri – Gwahoddir y Gweinidog i nodi'r ffordd mae'r Comisiynwyr yn gweithredu ac i ystyried p'un ac i ba raddau y gallai hyn ddarparu templed effeithiol petai angen ymyrraeth debyg yn y dyfodol.**

**Argymhelliad Pedwar –Gwahoddir y Gweinidog i nodi'r blaenoriaethau brys y mae'r Comisiynwyr yn eu dilyn ar hyn o bryd ac i gydnabod y cynnydd cynnar a wnaethpwyd.**

**Argymhelliad Pump – Gwahoddir y Gweinidog i gytuno ar y cyfeiriad strategol mae'r Comisiynwyr yn bwriadu ei adlewyrchu yn eu cynlluniau tymor hir (fel y nodwyd ym mharagraff 90 uchod)**

**Argymhelliad Chwech – Gwahoddir y Gweinidog i nodi arwyddion calonogol o newid yn ymddygiad a dull y mwyafrif o aelodau a etholwyd yn ddemocrataidd.**

**Argymhelliad Saith – Gofynnir i'r Gweinidog gadarnhau'r penderfyniad i ail-ymgysylltu Aelodau etholedig ar ôl yr AGM ym mis Mai, ac i ganiatáu i'r Comisiynwyr wneud consesiwn pellach yn ôl eu disgresiwn.**

**Argymhelliad Wyth - Er bod cynnydd yn cael ei wneud, byddai'r Comisiynwyr yn cynghori'r Gweinidog nad yw'r amodau wedi eu creu eto ble y gellid ystyried dychweliad i reolaeth ddemocrataidd lawn.**